

CYNGOR CYMUNED EGLWYS BACH - COFNODION CYFARFOD 07/09/2015

PRESENNOL: Cynghorwyr: Ceri Leeder, Austin Roberts, Arthur Williams, Gwyn Williams, John Lloyd Williams, Gwyn M Jones.

1. **CROESO:** Croesawodd y Cadeirydd, Ceri Leeder, bawb i'r cyfarfod gan estyn croeso arbennig i aelod o'r gymuned a oedd yn bresennol.
2. **YMDDIHEURIADAU:** Katherine Himsworth, Wendy Martin, Richard Newsham, Mike Rayner.
3. **DATGAN DIDDORDEB:** Cyng. John Lloyd Williams – eitem 6 (cais cynllunio – Bryn Derw).
4. **COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF:** cafwyd cofnodion cyfarfod 06/07/15 yn gywir a fe'u harwyddwyd.
5. **MATERION YN CODI O'R COFNODION:**

Siop y Llan - cafwyd e-bost gan Mrs Angharad Booth-Taylor, perchennog y Siop, yn egluro bydd y siop yn cau ar 10/02/16 oni bai y bydd rhywun yn ei phrynu yn yr ocsiwn ar 22/10/15 yng Ngwesty'r Eryrod Llanrwst.

Ffordd Bryn Hir am Llety - yn absenoldeb y Cyng. Mike Rayner, nododd y Cyng. Gwyn Williams eu bod wedi cael cyfarfod gyda swyddogion y Sir ynglŷn â gosod arwyddion ar y llwybr, cyflwr cyffredinol y llwybr a'r defnydd a wneir ohono gan feiciau modur. Trafodwyd hefyd y posibilrwydd o greu manau pasio, ond nodwyd nad oedd yr hen fynedfa i Henblas i gael ei ddefnyddio. Wrth reswm, byddai'n well pe byddai ceffylau a beiciau modur yn peidio a defnyddio'r llwybr, ond yn hytrach ddefnyddio gwely'r afon. Fodd bynnag, nid oes sail gyfreithlon i fynnu hyn.

Yn ogystal, trafodwyd Ffordd Llety gan fod y beiciau modur yn teithio ar ei hyd, ond gan ei fod yn 'ffordd fawr gyhoeddus heb ei dosbarthu', cytunwyd i gadw'r statws hwnnw.

Nododd y Sir eu bod wedi cael cais gan Bodnant i gau Ffordd Llety, ond ni fydd hyn yn cymryd lle.

Tir ochr arall i'r siop - cafwyd nodyn gan y Sir yn dweud nad yw'r darn tir yn eiddo iddynt, ac mai'r Cyngor Cymuned a fu'n gyfrifol am ei ffensio tro diwethaf. Cytunwyd y byddai'r Cyngor Cymuned yn prynu'r deunyddiau angenrheidiol a chytunodd y Cynghorwyr Austin Roberts, Richard Newsham, Arthur Williams a Gwyn M Jones i wneud y gwaith.

Cytunwyd i'r Clerc wneud ymholiadau gyda'r swyddfa Cofrestru Tir.

Llwybr Bryn Hir - cytunodd y Sir i wneud dau doriad ar hyd y llwybr gyda'r Afon Carrog a hynny er mwyn sicrhau diogelwch defnyddwyr y llwybr. Bydd archwiliad blwyddyn yn cael ei wneud o ail ran y llwybr er mwyn gweld os oes modd cael statws 'ymyl ddynodedig' i'r darn hwn a thrwy hynny ganiatáu toriad mwy sensitif.

Materion ffyrdd -

Ffordd Gyfflog at Llindir - y tyllau wedi cael eu llenwi;

Groesffordd Waen Fechan at Topan Bach - y tyllau wedi cael eu llenwi;

Ffordd Maenan - y tyllau wedi cael eu llenwi.

Y fynwent newydd - nododd y Cyng. Gwyn Williams bod Mr Islwyn Jones, 13 Maes Llan wedi gwneud arwydd ac wedi ei osod. Diolchwyd yn fawr iddo a chytunwyd i'r Clerc ysgrifennu gair o ddiolch ato.

Clwb 'Hwyl yr Haf' - bu'r clwb yn llwyddiannus iawn a chafwyd cais gan y Cyng. Wendy Martin i gynnal un arall yn ystod hanner tymor mis Hydref. Cytunwyd i gefnogi'r cais.

6. **CEISIADAU CYNLLUNIO:**

0/41940 - Tai Newyddion, Ffordd Pennant, Eglwys Bach LL28 5UN - estyniad ac addasiadau arfaethedig.

Dim gwrthwynebiad na sylwadau i'r cais.

Gadawodd y Cyng. John Lloyd Williams yr ystafell.

0/41900 - Bryn Derw, Ffordd Maenan, Eglwys Bach LL28 5UG - tystysgrif o ddefnydd o annedd cyfreithlon presennol trwy ddiffyg cydymffurfio â'r amod meddiannaeth gyfyngol o ganiatâd a roddwyd o dan god rhif 10/827.

Dim gwrthwynebiad na sylwadau i'r cais.

0/41997 - Fferm Ffwrnais, Ffordd Llanrwst, Tal y Cafn LL28 5RP - arddangos 2 arwydd heb eu goleuo ar bostyn pren.

The Community Council have no objection to the above application but wish to ask the Highways Department to address their following concerns:

- *Unease was felt with the location of sign 1 - could it mask the entrance to Eglwys Bach?*
- *There are many road signs in the immediate vicinity. Could drivers be distracted by the number of signs at the location?*

Penderfyniadau'r Sir ar Geisiadau Cynllunio: Dim.

7. **MATERION PENODOL I'W PENDERFYNU:**

Archwiliad blynyddol o Afon Carrog a Hiraethlyn - cafwyd cais gan aelod o'r gymuned i'r Cyngor Cymuned gynnal archwiliad blynyddol o'r afonydd er mwyn sicrhau nad oes sbwriel ac ati yn casglu ynddynt a allai achosi llifogydd. Trafodwyd a chytunwyd nad yw'r aelodau yn gymwys i wneud y gwaith ac nid oes cyllid digonol ar gael i gyflogi rhywun. Cytunwyd y dylid gwahodd aelodau'r gymuned i hysbysu'r Clerc o unrhyw bryderon fel bod modd wedyn hysbysu'r tîrfeddiannwr neu'r Cyngor Sir yn briodol.

Taliadau - UHY Hacker Young, Archwiliad Allanol 2014/15 - £246.00
Mrs Sue Hayward, Glanhau Toiledau (2 fis) - £220.50
Mrs Einir Jones – cyflog a chostau'r Clerc ar gyfer misoedd Gorff ac Awst - £276.99
Cyllid a Thollau ei Mawrhydi (Treth ar gyflog misoedd Gorff ac Awst y Clerc) - £63.00
Neuadd Aberconwy - £33.00
Mr Wil Williams, torri gwair (2 fis) - £630.00

8. **GOHEBIAETH:**

- Taliad Precept - £2,175.00 [CBSC];
- Cynigion i newid Ffiniau Etholiadol - uno Eglwys Bach a Llangernyw [CBSC];
- Guto Bebb - yn cynnal syrjery 23/09/15 yn Neuadd Aberconwy rhwng 4 a 4:30 o'r gloch;
- Ffurflen Flynnyddol Archwiliad 2014-15 [UHY Hacker Young]. Dim materion angen sylw.

9. **UNRHYW FATER ARALL:**

Cyng. Mike Rayner - nodwyd bod y Cyng. Rayner wedi penderfynu ymddeol fel Cyngorydd Sir.

Noson Tân Gwyllt - y Clerc i gysylltu â'r Cyng. Dawn Williams i weld os oes trefniadau ar y gweill.

Materion Ffyrdd - nodwyd bod y canlynol angen sylw:

Ffordd Bodnant - yn anwastad iawn ger mynedfa tai gwydr Bodnant ac yn achosi difrod i gerbydau;
Croesffordd Hen Efail - angen drych ar y safle er mwyn hwyluso'r uno o Ffordd Maenan;
Ffordd Gyffylog - arwydd enw'r ffordd wedi diflannu ochr arall i Nebo, Trofarth
Afon Carrog - gwagle angen ei ffensiō ger y bont 1af ar hyd Llwybr Bryn Hir.

10. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF:** nos Lun 05/10/2015 am 7:30 o'r gloch.